

<b>Enw'r Pwyllgor Craffu</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	8 Chwefror, 2022
<b>Teitl yr Eitem</b>	Aflonyddu ar benaethiaid ysgolion, athrawon a staff ysgolion trwy gyfryngau cymdeithasol
<b>Aelod Cabinet</b>	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn ydy ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am gyflwyniad ar aflonyddu ar athrawon a staff ysgolion trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â rhannu gwybodaeth gyda'r aelodau am yr hyn sydd wedi ei wneud a'i gyflawni gan yr Adran Addysg er mwyn bod o gymorth i ysgolion ddelio â sefyllfaoedd ble mae hynny'n digwydd.

## 2 CEFNDIR

- i) Yn achlysurol, ond yn gynyddol yn lled ddiweddar, ceir enghreifftiau o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i aflonyddu ar benaethiaid ysgolion, athrawon a staff ysgolion.
- ii) Gall hyn fod gan rieni neu ofalwyr, disgyblion neu aelodau eraill o'r cyhoedd.
- iii) Mae'r rhan fwyaf o achlysuron yn syrthio i un o ddau gategori:
  - a. Sylwadau cyffredinol ar gyfryngau cymdeithasol;
  - b. Postio delweddau neu fideos o staff ysgolion ar apiau digidol (e.e. *tiktok*) heb ganiatâd, a chyda'r rheiny'n aml yn wawdlyd ac yn amhriodol.

## 3 GWEITHREDU YNGLŶN AG ACHOSION

- i) Mewn perthynas â'r categori cyntaf (a.), mae angen dod i benderfyniad ynglŷn ag os yw'r sylwadau yn mynegi barn yn unig, ynteu ydynt yn cynnwys sylwadau sydd unai yn enllibus neu'n fygythiol, neu'r ddau. Os yw ysgolion yn dwyn unrhyw ymholiad i sylw'r Adran Addysg, byddwn yn cynghori fel a ganlyn.
- ii) Os mai mater o fynegi barn yn unig sydd yn y sylwadau, ac er nad yw ysgol yn derbyn bod y sylwadau yn deg neu'n gywir, ychydig iawn, os o gwbl, gellir ei wneud am hynny. Mewn cymdeithas rydd, mae gan bobl hawl i fynegi barn am wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus. Gellir ymhelaethu ar enghreifftiau posib' o'r sefyllfaoedd hyn ar lafar yn ystod y cyfarfod ar 8 Chwefror.

- iii) Pe cyfyd achos ble mae'r sylwadau unai yn enllibus neu'n fygythiol, neu'r ddau, dylid sicrhau cyngor cyfreithiol neu ddwyn y mater i sylw'r heddlu, a gall yr heddlu ymchwilio i hynny ar ran yr achwynydd.
- iv) Mewn achosion sydd yn syrthio i'r ail gategori (b.), cynghorir nad yw hynny'n dderbyniol, ac eu bod yn faterion sydd yn destun disgyblu yn erbyn yr unigolion perthnasol.
- v) Daeth y math yma o aflonyddu yn amlwg mewn rhai o ysgolion uwchradd Gwynedd (ac ysgolion ledled Cymru, Y DU a thu hwnt), yn ystod tymor yr hydref 2021, yn bennaf trwy ddefnydd o'r ap digidol *tiktok*. Roedd yr enghreifftiau y'u soniwyd amdanynt yn cynnwys delweddau a fideos o staff ysgolion wedi'u cymryd heb ganiatâd, ac yn cael eu defnyddio yn amhriodol, a disgyblion yn cael eu ffilmio, neu'n ffilmio eu hunain, yn cymryd rhan mewn 'sialensiau' misol oedd yn cynnwys rhai oedd yn rhywiaethol neu'n dreisgar eu natur, ac oedd yn cael eu hyrwyddo'n rhyngwladol gan ddefnydd amhriodol o'r ap digidol *tiktok*.
- vi) Fe weithredodd yr Adran Addysg yn syth trwy holi penaethiaid ein hysgolion uwchradd ynglŷn â hyd a lled y broblem, a darparwyd llythyr (gweler Atodiad 1) gan yr Adran Addysg, ac fe'i anfonwyd at benaethiaid ein hysgolion uwchradd i'w anfon ymlaen at holl rieni/gofalwyr y disgyblion uwchradd. Cafodd yr arweiniad a'r gefnogaeth ei werthfawrogi gan yr ysgolion, ynghyd â phrydlondeb ymateb yr adran i'r sefyllfa hon.

#### **4 SEFYLLFA BRESENNOL**

- i) Mewn perthynas a'r categori cyntaf (a.), mae'r adran yn parhau i gynghori ysgolion (gweler **3** i) pe cyfyd achosion ble mae ysgolion yn dwyn hyn i'n sylw.
- ii) Mewn perthynas a'r ail gategori (b.), mae'n hysgolion yn parhau i fonitro'r sefyllfa er na chredir bod yr angen i anfon y llythyr eto wedi codi ers tymor yr hydref 2021.
- iii) Mae eitem benodol wedi'i rhaglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Grŵp Strategol penaethiaid uwchradd ar 2 Chwefror er trafod y sefyllfa ymhellach gyda'r gobaith bod y gweithredu ataliol a wnaed gan yr adran yn nhymor yr hydref 2021 wedi sicrhau rheolaeth o'r sefyllfa, a gellir adrodd ar hynny ar lafar i'r pwyllgor hwn ar 8 Chwefror.

#### **5 ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr adroddiad, a chynnig sylwadau ar ei gynnwys.